



# Casglu hadau coed ar gyfer gwerthu uniongyrchol

## Cyflwyniad

Mae diddordeb cynyddol mewn casglu hadau coed gan grwpiau coetir cymunedol yng Nghymru, i ddarparu ffynhonnell incwm fechan. Gwerthir yr hadau hyn, i'w tyfu mewn meithrinfeydd bychain ar gyfer eu gwerthu yn y pen draw fel eginblanhigion neu drawsblaniadau, neu'n syml i'w plannu ar gyfer creu coetir neu ailstocio. Mae gwybod pryd, ymhle a sut i gasglu hadau yn gywir o goed gwyllt yn bwysig - os gwneir yn iawn gall fod yn weithgarwch coetir cynhyrchiol, plaserus, ond os gwneir yn anghywir gall arwain at gasglu hadau o ansawdd isel, stoc dyfu wael ac ymdrechion ofer. Efallai na fydd hedyn newydd ei blannu yn aeddfedu yn goed llawn twf am gannoedd o flynyddoedd felly mae'n werth oedi ar y cam cyntaf hwn i wneud pethau'n iawn, neu fel arall mae'n bosib y bydd cenedlaethau'r dyfodol wedi'u siomi gyda'r canlyniadau! Diben y canllaw byr hwn yw darparu rhestr wirio gryno ar sut i gasglu hadau o ansawdd uchel yn gynaliadwy o goed brodorol a chyfeirio darllenwyr at ffynonellau perthnasol o wybodaeth fanylach. Mae wedi'i anelu'n bennaf at reolwyr coetir sy'n dymuno casglu hadau o'u hardal leol i'w gwerthu'n uniongyrchol, naill ai fel hadau neu, yn fwy tebygol, fel stoc dyfu i feithrinfeydd.



Llais y Goedwig, Unit 1, Dyfi Eco Park, Machynlleth, Powys, SY20 8AX



## Pam casglu?

Gall casglu hadau coed fod yn ffynhonnell incwm bosib i berchnogion/rheolwyr coetir ond mae gwerthu hadau'n uniongyrchol yn annhebygol o gynnig gwobr ariannol fawr. Mae mwy o botensial i dyfu'r hadau a gasglwyd, ond unwaith eto, mae'r lefelau elw i feithrinfeydd coed bychain yn fach hyd yn oed lle defnyddir gwirfoddolwyr, ac nid yw sefydlu meithrinfa yn dasg i'r wangalon. Fodd bynnag, os ydych eisoes yn rhedeg meithrinfa fechan, neu'n bwriadu tyfu coed at eich defnydd eich hun, efallai y byddwch yn ystyried gwerthu stoc dros ben.

Dynodir hadau a'r eginblanhigion / trawsblaniadau a dyfir ohonynt yn "Ddeunydd Atgennedlol Coedwigoedd" (FRM) ac fe'u rheoleiddir o dan Reoliadau FRM (2002).<sup>1</sup> Mae'n bosib casglu a gwerthu hadau'n uniongyrchol, ond fe gaiff y fasnach hon ei rheoleiddio'n llym i sicrhau bod yr holl ddeunydd yn gwbl olrheiniadwy ac o safon dda. I gydymffurfio â rheoliadau FRM, rhaid i chi fod wedi cofrestru fel cyflenwr, hysbysu'r Comisiwn Coedwigaeth (FC) o bob casgliad hadau a chaffael 'Tystysgrif Feistr' ar gyfer y deunydd cyn y'i gwerthir. Rhaid profi samplau o unrhyw hadau y bwriedir eu gwerthu hefyd mewn cyfleuster profi hadau awdurdodedig cyn gwerthu. Gallech mewn egwyddor, sefydlu cyfleuster profi hadau cofrestredig, ond o ganlyniad i'r safonau rhyngwladol sy'n ofynnol nid yw hyn yn syml. Fel arall, bydd rhaid i chi anfon pob sampl hadau i gyfleuster cofrestredig a bydd costau ariannol ynghlwm â hyn. Oni bai eich bod yn bwriadu gwerthu hadau coed gwerth uchel (rhywogaethau prin neu unigryw efallai), gall fod yn anodd cystadlu â chyflenwyr hadau ar raddfa fawr sydd eisoes yn bodoli.

Gall tyfu'r hadau a gasglwyd gennych i'w gwerthu fel eginblanhigion neu drawsblaniadau fod yn gynnig deniadol, ond yn anffodus mae'r gyfradd lwyddo i feithrinfeydd coed bychain yn isel, ac mae'n anodd cystadlu â'r cyflenwyr mawr iawn sy'n gweithredu yn llawer mwy effeithlon o ganlyniad i raddfa eu gweithrediadau. Hyd yn oed os ydych yn bwriadu gwerthu symiau bychain o stoc a dyfwyd gennych, bydd rheoliadau FRM yn dal yn berthnasol,<sup>1,2</sup> er efallai y bydd y gofynion profi yn llai i symiau bychain iawn o hadau. Ceir crynodeb o'r gofynion ar gyfer y rheiny sy'n gwerthu hadau neu stoc feithrinfa yn *Rhwymedigaethau cyfreithiol wrth gasglu hadau coed yng Nghymru*.

## Pryd i gasglu

Dylech bob amser gynllunio eich casglu ymhell ymlaen llaw. Fel canllaw, dangosir y cyfnodau hau disgwylidig ar gyfer rhywogaethau coed a gwrychoedd brodorol yn y Tabl isod, ond mae angen i'ch cynlluniau fod yn hyblyg - mae amrywiaeth fawr rhwng safleoedd ar uchderau neu agweddau gwahanol, a bydd p'un a yw'r hedyn yn aeddfedu yn dibynnu ar amodau tywydd y flwyddyn honno, ac mae hefyd yn amrywio rhwng coed unigol. Mae'n rhaid casglu hadau pan maent wedi aeddfedu i'r graddau cywir, yn aml mae'r hadau cyntaf sy'n disgyn yn fach ac yn anhyfyw - ond os ydych yn gadael hi'n rhy hwyr yna bydd bywyd gwyllt neu wynt yn achub y blaen arnoch! Dylid asesu hadau i sicrhau eu bod yn barod, hyfyw ac o ansawdd dda. Ceir canllaw ar sut mae gwirio aeddfedrwydd hadau a hyfywedd ar gyfer pob rhywogaeth<sup>3,4,5,6,9</sup>.

## Lle i gasglu

Sicrhewch eich bod wedi cael caniatâd i'w casglu bob amser. Os ydych yn bwriadu gwerthu'r hadau, neu stoc dyfu, mae'r cam hwn yn hanfodol. Bydd angen i chi ddod yn gyflenwr cofrestredig (gweler rheoliadau FRM [2002]<sup>1,2</sup>, hysbysu'r FC o leiaf 2 wythnos cyn casglu a darparu gwybodaeth am leoliad y safle, dyddiadau casglu, rhywogaethau, etc (Ffurflen FRM7). Efallai y bydd rhai safleoedd wedi'u

gwarchod oherwydd eu gwerth cadwraeth (e.e. SoDdGA neu GNG), os ydych yn ansicr gallwch wirio am unrhyw ddynodiadau ar borth mapiau Llywodraeth Cymru (<http://lle.gov.wales>) – mae'n bosib y byddwch yn dal i allu casglu hadau o'r safleoedd hyn, ond bydd caniatâd yn ofynnol. Yn aml, mae gan 'diroedd comin' bwyllgor tiroedd comin yn eu rheoli a thirfeddiannwr. Mewn rhai achosion gall tirfeddiannwyr bennu amodau ychwanegol ar gasglu ac yn amlwg mae'n rhaid glynu at y rhain.

## Beth i'w gasglu - Adnabod rhywogaethau

Sicrhewch eich bod yn adnabod eich rhywogaethau. Mae'n bwysig gallu adnabod yn gywir rhywogaeth y goeden yr ydych yn casglu ei hadau - fel rheol mae hyn yn hawdd, ond i rai rhywogaethau mae'n gofyn mwy o ofal, yn enwedig pan mae rhywogaethau yn tyfu gyda'i gilydd e.e. Derwen (Derwen Ddigoes vs. Derwen Goesynnog) neu Fedwen (Bedwen Arian neu Fedwen Lwyd).<sup>3,7,8</sup> Lle mae grŵp o gasglwyr yn gweithio, gwnewch yn siŵr y gall pawb adnabod yn gywir y coed sydd eu hangen arnoch. Os ydych yn casglu hadau ar gyfer plannu, gwnewch yn siŵr eu bod yn briodol ar gyfer y safle a fwriadwyd - mae tyfu coed yn llwyddiannus yn ddibynnol iawn ar ddewis y rhywogaethau cywir ar gyfer amodau lleol y safle. Mae gan Forest Research adnodd ar-lein defnyddiol iawn i baru rhywogaethau priodol ag amodau lleol eich safle (uchder, pridd, amlygiad, etc) ac mae hefyd yn cynnig canllawiau ar ddewis rhywogaethau mewn hinsawdd sy'n newid.<sup>10</sup>

## Dewis celliau had

Dod i adnabod eich coetiroedd. Yng Nghymru, y canllaw yw plannu rhywogaethau brodorol o darddiad lleol, yn ddefnyddiol o safleoedd yn agos at le'r ydych yn bwriadu plannu. Byddai casgliadau o goed sy'n tyfu'n naturiol mewn coetiroedd lled-naturiol hynafol mwy (>4ha) yn fan cychwyn da. Mae gwytodaeth am hanes y safle a'i reolaeth yn amhrisiadwy, ond yn aml nid yw ar gael. Hyd y gellir, dylai casglwyr sicrhau nad yw'r rhiant goed wedi cael eu plannu. Yn absenoldeb gwytodaeth gadarn, mae cliwiau eraill a all ddangos poblogaeth naturiol e.e. tystiolaeth o goedlannu hanesyddol, gofod naturiol rhwng coed (dim llinellau syth) a diffyg rhywogaethau wedi'u cyflwyno. Dylid osgoi coed / gwrychoedd newydd eu plannu yn gyffredinol.<sup>12,13</sup>

## Iechyd coed

Mae'n bwysig iawn mai dim ond o goed iach y daw'r hadau a gesglir gennych. Cyn i chi ddechrau casglu, dylid archwilio'r rhiant goed yn ofalus. Mae Forest Research yn darparu gwytodaeth ynglŷn ag afiechydon cyfredol a beth i gadw llygad amdano.<sup>14</sup> Mae rhai afiechydon coed yn hysbysadwy, ac os gwelir hwy dylid rhoi gwytod amdanynt, ac yn sicr ni ddylid casglu hadau o'r coed sydd wedi'u heffeithio. Dan yn ddiweddar iawn, o ganlyniad i Chalara (Afiechyd Lladdwr yr Ynn), roedd casglu hadau a phlannu Ynn wedi'i wahardd. Mae ymchwil yn cael ei gynnal i adnabod straeniau goddefgar o Chalara ond hyd nes y deallir yr afiechyd yn well, dylid osgoi plannu Ynn a'r dull a ffafrir o ailblannu coed yw adfywiad naturiol o Ynn o riant goed sy'n gallu gwrthsefyll yr afiechyd.<sup>14</sup> Dylid osgoi casglu hadau o safleoedd lle mae *Phytophthora ramorum* (sy'n gysylltiedig â marwolaeth sydyn Ynn) yn bresennol.<sup>14</sup> Fel arfer, wrth weithio mewn coetir dylech fod yn ymwybodol o faterion bioddiogelwch mwy cyffredinol, yn enwedig lleihau'r risg o ledaenu pathogenau rhwng safleoedd gwahanol.<sup>16</sup>

## Dewis coed

Wrth gasglu hadau, y nod yn gyffredinol yw casglu o sylfaen enetig eang o *grŵp* ('celli') hysbys, diffiniedig o goed, yn hytrach na choed ynysig unigol. Yn ddelfrydol, dylai'r grŵp fod cryn bellter oddi wrth unrhyw stoc anfredorol o'r un rhywogaeth fel bod y risg o groesfridio wedi'i lleihau. Os yw'n bosib, dylid casglu symiau cyfartal o hadau o 20 - 30 coeden unigol o leiaf, felly mae'n well casglu symiau bychain o sawl coeden unigol yn hytrach na symiau mawr o ychydig o goed. Mae'n bwysig PEIDIO â seilio'ch dewis ar unrhyw nodweddion penodol a dylai eich casgliad adlewyrchu'r nodweddion morffolegol a thwf gweladwy sy'n bresennol. Mewn celliau naturiol, dylid casglu hadau o goed y mae cryn bellter rhyngddynt, gan y gallai coed unigol sy'n agos at ei gilydd fod yn epil rhiant sengl. Yn ddelfrydol dylai fod yna 50 metr o fwllch o leiaf rhwng y rhiant goed. Hyd yn oed o fewn coeden unigol, mae'n bosib bod blodau mewn rhannau gwahanol o'r canopi wedi cael eu peillio gan goed gwrywaidd gwahanol, felly argymhellir cymryd hadau o ganghennau ar uchderau gwahanol a rhannau gwahanol o'r canopi os yw'n bosibl.<sup>11,4</sup>

## Pryd i gasglu

Mae'n bwysig casglu hadau pan maent wedi aeddfedu i'r graddau cywir, yn gyffredinol bydd hyn yn ystod anterth eu gwasgariad naturiol. Mae'r calendr casglu hadau (isod) yn dangos pryd y gellir disgwyl i rywogaethau coed gwahanol gynhyrchu hadau, ond mae'n bwysig dod i adnabod y coed yr ydych yn bwriadu casglu ganddynt gan fod amrywiaeth sylweddol rhwng rhannau gwahanol o'r wlad; rhwng blynyddoedd (gall hafau sych, cynnes gyflymu proses aeddfedu hadau o hyd at bedair wythnos); rhwng safleoedd (yn enwedig agweddau gogleddol a deheuol); a hyd yn oed rhwng coed unigol. Nid yw'r rhan fwyaf o goed yn y DU yn cynhyrchu symiau mawr o hadau bob blwyddyn - bydd blynyddoedd 'toreithiog' pan mae amodau yn ffafriol a symiau sylweddol o hadau da yn cael eu cynhyrchu, yn gymysg â blynyddoedd gwael lle cynhyrchir ychydig iawn o hadau, y bydd llawer ohonynt yn fach ac anhyfyw. Cyn i chi ddechrau casglu symiau mawr o hadau, mae'n bwysig asesu ansawdd yr hadau - h.y. drwy gymryd sampl o hadau a thorri rhai yn eu hanner i'w harchwilio. Yn aml, bydd pryfetach yn ymosod ar hadau ac weithiau gellir adnabod hedyn hyfyw drwy gynnal 'prawf arnofio'. Mae hadau wedi'u difrodi neu anhyfyw yn tueddu i arnofio a dylid cael gwared ar y rhain. I rai rhywogaethau, gellir profi rhannau cynnar y cnwd hadau yn y ffordd hon gan y bydd unrhyw hedyn bach, anaeddfed yn aml yn arnofio. Os nad yw'r hadau wedi datblygu'n llawn, efallai y bydd yn werth oedi casglu i adael i'r cnwd hadau aeddfedu.<sup>13,5</sup>

## Faint i'w casglu:

Cyn cynllunio casglu hadau, dylech gael targed mewn golwg ar gyfer y swm o hadau sydd ei angen arnoch a chynllunio'n unol â hynny. Os ydych yn bwriadu plannu'r hadau mewn meithrinfa sicrhewch fod gennych ddigon o le wedi'i baratoi: er enghraifft, fel canllaw bras, i dyfu ~100 o eginblanhigion o 1kg o hadau Derw (~280 o fes), bydd angen 2.6m<sup>2</sup> o dir wedi'i baratoi arnoch.<sup>4, 18</sup>

Dylech anelu at gasglu swm cyfartal o bob coeden yr ydych wedi'u dewis, felly dylech gadw eich swm targed yn y cof wrth gasglu'r hadau. Er ei bod yn annhebygol y byddwch yn gallu casglu'r holl hadau o unrhyw gelli, neu hyd yn oed o goeden unigol, dylech bob amser adael ychydig o hadau i fywyd gwylt a all fod yn dibynnu arnynt fel ffynhonnell fwyd, a hefyd i ganiatáu ar gyfer adfywiad naturiol y coetir. Canllaw bras yw peidio â chymryd mwy na 20% o'r hadau ar gael, a pheidio â chasglu mwy na'r hadau sydd eu hangen arnoch byth!<sup>20</sup>

## Technegau casglu

Gall casglu hadau coed fod yn broblemus, gan fod y ffrwythau a'r hadau yn uchel ar y coed, ymhell allan o gyrraedd. Dim ond rhai rhywogaethau megis y Ffawydden a'r Dderwen sydd â hadau digon mawr yn werth eu casglu oddi ar y llawr.

Mae sawl ffordd o gasglu hadau ac mae'r dulliau mwyaf addas yn dibynnu ar y rhywogaethau, yr offer ar gael, a'r symiau o hadau yr ydych yn gobeithio eu casglu.

Ar gyfer symiau bychain, gellir plycio ffrwythau, cnau neu gonau yn syml o'r goeden neu eu casglu oddi ar y llawr, cyn belled â'u bod newydd ddisgyn. Ar gyfer symiau mwy, bydd technegau eraill yn ofynnol: Y dull mwyaf effeithlon yw torri coed, a all swnio'n eithafol ac ni ddylid ei wneud er mwyn casglu hadau yn unig, ond os yw torri coed neu goedlannu yn angenrheidiol beth bynnag, yna gellid amseru hyn i gyd-ddigwydd â chynhyrchu hadau. Ar gyfer coed sy'n sefyll, dylid casglu hadau yn ddelfrydol o ar draws y canopi coed ac mewn rhai achosion cyflogir dringwyr coed proffesiynol i gyflawni'r dasg hon, ond mae cryn risg yn perthyn i hyn ac ni ddylai'r amhrofiadol roi cynnig arni. Opsiwn arall gwell yw defnyddio tocwyr ar ffurf polyn hir y gellir ei ymestyn ar gyfer ffrwythau na ellir eu cyrraedd gyda braich. Dull arall yw ysgwyd canghennau'r coed a chasglu'r hadau sy'n disgyn ar lieiniau mawr wedi'u gosod ar y llawr oddi tanynt. Mae gan weithrediadau ar raddfa fawr ysgydwyr coed mecanyddol, ond dull mwy ymarferol yw defnyddio rhaff a deflir i mewn i'r goeden o'r ddaear. Dylid cymryd gofal bob amser i beidio ag achosi difrod wrth ddefnyddio unrhyw rai o'r technegau hyn. Gellir casglu hadau mawr megis mes neu gnau ffawydd oddi ar y llawr, ond dylid gwneud hyn ar unwaith i leihau'r risg o ddfrod gan blâu a phathogenau. Dylid osgoi hadau hŷn sy'n gorwedd ar y llawr bob amser. Ar gyfer y Ffawydden a'r Dderwen, dull cyffredin yw gosod rhwydi neu lieiniau o dan y coed fel y gellir eu casglu yn hawdd a bod oedran yr hadau yn hysbys. Mae gan rywogaethau eraill megis y Fedwen a'r Wernen hadau ysgafn, bach iawn sy'n cael eu gwasgaru gan y gwynt. Ar gyfer y rhain, gellir casglu'r conau sydd fymryn yn aeddfed o'r goeden cyn y rhyddheir yr hedyn.<sup>4,6</sup>

## Storio

Er y gellir casglu hadau a'u doddi mewn bwcedi neu fasnau plastig i ddechrau arni, dylid eu trosglwyddo i fasnau hesian neu bapur, neu ar gyfer hadau gwlyb iawn, i fasnau rhwydi i ganiatáu ar gyfer sychu. Oherwydd bod hadau coed yn sensitif iawn i amodau storio (mae hyfywedd y Dderwen yn lleihau'n sylweddol hyd yn oed os yw'r hadau yn sychu fymryn), mae'n bwysig y gwneir hyn yn iawn, felly mae angen i chi gynllunio ymlaen llaw. Ni argymhellir cadw hadau mewn bagiau plastig gan y gallant orboethi neu lwydo'n hawdd. Dylid cadw hadau ysgafn iawn mewn bagiau papur gyda digonedd o le i aer gylchredeg. Os ydych yn gwerthu hadau fel contractwr, byddant yn rhoi cyngor i chi ynglŷn â sut yn union y byddant eisiau i'r hadau gael eu storio.<sup>4,13</sup>

O ran storio hadau yn y tymor hwy, bydd yn dibynnu ar y math o hadau a phryd y bwriedir eu plannu. Yn gyntaf, efallai y bydd angen gwahanu'r hadau oddi wrth y ffrwyth, côn, plisgyn neu gragen. Bydd y ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn yn dibynnu ar y symiau dan sylw - gellir mwntro symiau bychain o ffrwyth meddal gyda llaw, ar gyfer symiau mwy efallai y bydd corddwr sment yn ddefnyddiol.<sup>5</sup> Mae angen cyfnod oer ar y rhan fwyaf, ond nid pob un, o'n coed brodorol cyn y byddant yn tyfu, gelwir hyn yn 'cysgiad hadau'. Mae rhai rhywogaethau megis y Dderwen a'r Aethnen yn hadau nad oes angen cwsg arnynt ac y dylid eu plannu yn syth tra bydd angen un neu ddau aeaf oer ar eraill cyn y byddant yn tyfu. Mae 'haenu' hadau yn ffordd o efelychu'r amodau naturiol sy'n ofynnol ar gyfer egino, ac mae gan bob rhywogaeth ei gofynion unigryw ei hun.

Mae canllaw ymarfer yr FC "Meithrin coed a gwrychoedd o hedyn"<sup>18</sup> yn awgrymu dulliau haenu ar gyfer rhywogaethau gwahanol. Y dull mwyaf cyffredin yw oeri'r hedyn (ar dymheredd o 1° i 3°C am 2-24 wythnos) mewn cynwysyddion addas, yna'i gynhesu (ar oddeutu 20°C) am 2-10 wythnos yn dibynnu ar y rhywogaeth.<sup>3,9,19</sup>

## Profi Hadau

Os ydych yn bwriadu gwerthu symiau mawr o hadau neu'r eginblanhigion/trawsblaniadau wedi'u tyfu o'r hadau a gasglwyd gennych, bydd angen i sampl o'r hadau gael ei phrofi gan gyfleuster profi hadau cofrestredig. Bydd y sampl hadau yn cael ei phrofi ar gyfer: purdeb y casgliad o hadau (nifer y malurion, etc), canran eginol/hyfywedd yr hedyn pur, pwysau 1000 o hadau pur, a nifer yr hadau eginol/hyfyw fesul kg. Nid oes rhaid profi symiau llai o hadau (e.e. <40kg o fes, 50g o hadau Bedwen, etc) i'r un graddau felly dylech wirio'r rheoliadau cyfredol cyn cysylltu â'r FC gyda'ch hysbysiad casglu. Gall cyfleusterau profi hadau godi oddeutu £40-£60 ar gyfer pob math o brawf a byddant yn nodi'r union swm o hadau sy'n ofynnol ar gyfer pob rhywogaeth (e.e. 500 o hadau ar gyfer y Dderwen, 10g o hadau ar gyfer y Fedwen, etc). Mae canllawiau ar sut mae dewis hadau i'w samplu ar gael gan yr FC.<sup>21</sup> Yn dibynnu ar y math o brawf sy'n ofynnol, gall canlyniadau gymryd hyd at chwe wythnos.

## Labelu

Rhaid labelu pob casgliad o hadau gydag enw'r rhywogaeth, dyddiad, a chyfeiriad at leoliad y casgliad. Defnyddiwch labeli gwrth-ddŵr bob amser a gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u glynu'n sownd wrth unrhyw fag neu gynhwysydd. Os ydych yn bwriadu gwerthu'r hadau, neu eu tyfu a gwerthu'r eginblanhigion neu drawsblaniadau, yna mae labelu da yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol fel bod modd olrhain yr hadau o'u tarddiad, drwy haenu hyd at y stoc dyfu a werthir yn y feithrinfa. Ar gyfer deunydd a werthir rhaid i chi wneud cais i'r FC am 'Dystysgrif Feistr' o fewn 9 mis i gasglu'r hadau neu cyn gwerthu'r deunydd, pa un bynnag yw'r cynharaf.<sup>1,4,6</sup>

## Pwyntiau allweddol

- ◇ Casglwch hadau o goed o Darddiad Brodorol, Tarddle Lleol lle bynnag y bo'n bosibl
- ◇ Sicrhewch ganiatâd y trawsfeddianwyr bob amser cyn i chi ddechrau
- ◇ Gwiriwch y rheoliadau FRM cyfredol a dilynwch nhw
- ◇ Trefnwch a chynlluniwch eich diwrnodau casglu
- ◇ Sicrhewch y gallwch adnabod y rhywogaethau rhiant goed yn gywir
- ◇ Peidiwch byth â chasglu o goed afiach neu heintus
- ◇ Ceisiwch gasglu o 20 - 30 coeden gyda chryn bellter rhyngddynt mewn celli ddiffiniedig
- ◇ Cyn casglu symiau mawr, gwiriwch fod yr hadau yn hyfyw ac o ansawdd dda
- ◇ Casglwch hadau/ffrwythau pan maent wedi aeddfedu i'r graddau cywir
- ◇ Peidiwch â chasglu hadau oddi ar y llawr
- ◇ Glanhewch, sychwch, a storiwch yr hadau yn gywir
- ◇ Sicrhewch fod gennych fan storio / plannu addas yn barod
- ◇ Cadwch gofnodion da a gwnewch yn siŵr bod yr holl gasgliadau wedi'u labelu'n dda ac y gellir eu holrhain o hadau i stoc feithrinfa

## Adnoddau defnyddiol / Rhestr ddarllen

1. FC Forest Reproductive Material: Regulations controlling seed cuttings and planting stock for forestry in Great Britain (2019) ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/forest-reproductive-material-regulations-controlling-seed-cuttings-and-planting-stock-for-forestry-in-great-britain-2nd-edition/>
2. FC The Basic Obligations for Suppliers under the Forest Reproductive Material Regulations. Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes#basic-material-and-forest-reproductive-material>
3. The Good Seed Guide. Y Cyngor Coed (heb ei ddyddio) ISBN 0-904853-01-2
4. UK National Tree seed project Gerddi Botaneg Kew Gorffennaf 2014
5. BTCV (NI) Autumn Seed Harvest. Ar gael ar-lein yn: <https://treegrowing.tcv.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/handbook.pdf>
6. TCV Handbook: Tree planting and aftercare (ar gael ar-lein ond rhaid tanysgrifio) yn: <https://www.conservationhandbooks.com/tree-planting-aftercare/>
7. Trees in Britain (1978) Roger Philips. ISBN 0-330-25480-4
8. Trees and how to grow them (2008) Y Cyngor Coed ISBN 978-1084525-060-7
9. Seed manual for ornamental trees and shrubs (1982) Bwletin #59 yr FC. Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/archive-seed-manual-for-ornamental-trees-and-shrubs/>
10. Ecological Site Classification (2020) Forest Research. Ar gael yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/ecological-site-classification-decision-support-system-esc-dss/>
11. Nodyn Ymarfer yr FC Awst 1999 Using Local stock for planting native trees and shrubs. Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/using-local-stock-for-planting-native-trees-and-shrubs/>
12. Flora Locale "Code of practice for collectors, growers and suppliers of native flora". Planting with wildlife in mind 2012. Ar gael ar-lein yn: <https://cieem.net/resource/code-of-practice-for-collectors-growers-and-suppliers-of-native-flora/>
13. Maelor Forest Nurseries Ltd Procedures and guidelines for collecting local provenance native trees and shrub seed. (heb ei gyhoeddi) (Cysylltwch â Maelor drwy eu gwefan <http://www.maelor.co.uk/>)
14. CNC Iechyd Coed yng Nghymru <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/forestry/tree-health-and-biosecurity/tree-health-in-wales/?lang=en>
15. FC Current advice on Ash dieback: [file:///C:/Users/Desktop/Downloads/Guidance\\_note\\_ash\\_dieback\\_national\\_measures\\_March\\_2020\\_.pdf](file:///C:/Users/Desktop/Downloads/Guidance_note_ash_dieback_national_measures_March_2020_.pdf)
16. CNC Sut i ymarfer bioddigolwch mewn coetiroedd: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/forestry/tree-health-and-biosecurity/how-to-practise-biosecurity-in-woodlands-keep-it-clean/?lang=en>
17. Bwletin #111 yr FC: Forest nursery practice. Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/archive-forest-nursery-practice-2ed/>
18. Canllaw Ymarfer #18 yr FC: Raising trees and shrubs from seed (2007). Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/raising-trees-and-shrubs-from-seed/>
19. Bwletin #83 yr FC Seed manual for forest trees (1992). Ar gael ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/archive-seed-manual-for-forest-trees/>
20. Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew: A field manual for seed collectors [http://brahmsonline.kew.org/Content/Projects/msbp/resources/Training/English\\_kppcont\\_035653\\_A-field-manual-for-seed-collectors.pdf](http://brahmsonline.kew.org/Content/Projects/msbp/resources/Training/English_kppcont_035653_A-field-manual-for-seed-collectors.pdf)
21. FC Seed testing guidance notes: Working with planting material for forestry purposes (further guidance on seed testing). Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/guidance/work-with-planting-material-for-forestry-purposes>

## Nodyn 1: Rhywogaethau Brodorol / Tarddle Lleol / Tarddiad Lleol coed


Mae llawer o ddadlau ynghylch y coed mwyaf addas y dylid eu plannu i ddarparu gwytnwch yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Ar hyn o bryd, y casgliad yw na allwn ragweld tywydd Cymru yn y dyfodol, heblaw y dylem ddisgwyl digwyddiadau tywydd mwy aml a mwy eithafol. Nid yw'r cyngor wedi newid, h.y. dylid cymryd i ystyriaeth nodweddion lleol y safle (math o bridd, amlygiad, sychder, etc). Ar gyfer plannu coetir lle mae buddion ecolegol yn brif ffocws (yn hytrach na chynhyrchu pren), dylid defnyddio rhywogaethau coed brodorol lle bynnag y bo'n bosibl, a dylai'r rhain hefyd fod o Darddiad Lleol, neu o Darddle Lleol, o leiaf.

**Rhywogaethau brodorol:** ystyrir y rhain yn gyffredinol fel y rheiny a wladychodd Cymru ar ôl yr Oes yr Iâ olaf, cyn i fodau dynol symud hadau a phlanhigion o gwmpas. Mae rhai rhywogaethau 'wedi'u naturioli' megis y Sycamorwydden sy'n anodd eu categorio. Mae'r Rheoliadau Deunydd Atgennedlol Coedwigoedd<sup>1</sup> yn rhoi rhestr o 64 o rywogaethau coed a gwrychoedd a ystyrir yn 'Frodorol i Brydain Fawr'. Mae mewnfario stoc dyfu anffrodorol yn gallu (ac wedi) arwain at groesi gyda rhywogaethau Prydeinig brodorol a'r posibilrwydd o golli amrywiaeth genedig.

**Rhywogaethau Tarddiad Lleol / Tarddle Lleol:** Defnyddir y term 'tarddle' i ddisgrifio lleoliad y gelli y *casglwyd* yr hadau ganddi. 'Tarddiad' yw'r lleoliad daeryddol o fewn y cwmpas naturiol lle *tyfodd* y rhiant goeden neu ei hynafiaid gwyllt yn *wreiddiol*. O ganlyniad byddai'n bosib tyfu coeden o 'darddle lleol' sydd mewn gwirionedd o darddiad tramor, os casglwyd yr hedyn gan riant goeden wedi'i mewnfario (e.e. y rheiny a blannwyd ar dir ystadau neu blanhigfeydd).

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth (FC) wedi rhannu'r DU yn bedwar Rhanbarth Tarddle sydd yna'n cael eu rhannu yn 'barthau tarddle hadau lleol', yn seiliedig yn bennaf ar ffiniau ecolegol naturiol. Mae'r FC yn darparu map sy'n dangos yr ardaloedd casglu hadau hyn a rhaid darparu cod Tarddle Lleol (LP) priodol yr ardal ar gyfer unrhyw hedyn y mae angen tystysgrif feistr swyddogol arno. Mae'r rhan fwyaf o Gymru yn barthau LP 303 a 304, ond mae rhannau bach o ogledd-ddwyrain, dwyrain a de-ddwyrain Cymru yn barthau 302, 403 a 404.

### Rhanbarthau tarddle a pharthau hadau ar gyfer Cymru





Pan gesglir hadau, yn aml nid yw tarddiad y goden yn hysbys, ond rhagdybir bod y rhiant goed sy'n tyfu'n dda mewn ardal wedi addasu i'r amodau lleol. Felly, wrth blannu ar safle, dylid defnyddio hadau lleol lle bynnag y bo'n bosib. Os defnyddir hadau o ymhellach i ffwrdd yna efallai na fydd y coed yn tyfu gystal, neu efallai y byddant yn ymddwyn yn wahanol i stoc sydd wedi addasu i'r amodau lleol, e.e. gallant egino yn gynharach, gall eu dail fod yn fwy agored i rew cynnar, neu gall blodau a ffrwythau ddatblygu ar adegau anghywir i bryfetach lleol gael budd ohonynt.

Os cesglir hadau gyda'r bwriad o blannu coetir lled-naturiol newydd, neu ailstocio coetir lled-naturiol presennol, mae Safon Coedwigaeth y DU a'r Canllawiau Ymarfer Coedwigaeth 1-8 cysylltiedig - 'Rheoli coetir lled-naturiol' yn argymhell defnyddio planhigion o darddle lleol.<sup>2</sup> Mae Cynllun Sicrwydd Coetir y DU hefyd yn argymhell defnyddio hadau rhywogaethau brodorol.<sup>3</sup>

Er bod coed Brodorol o darddiad lleol a/neu darddle lleol yn dal i gael eu hargymhell, mae rhagor o wybodaeth yn ofynnol o hyd ynglŷn â'r ystod o amrywiaeth genetig sy'n bresennol yn rhywogaethau Prydain a ph'un a yw hyn yn ddigonol i sicrhau y gallant ymdopi â holl bosibiliadau hinsawdd y dyfodol. O ganlyniad, y cyngor ar hyn o bryd yw:

- a) Plannu cymysgedd o rywogaethau, gan y bydd rhai rhywogaethau yn fwy goddefgar o amodau amrywiol nag eraill
- b) Plannu hadau o darddle lleol, er y gallai plannu cymysgedd o hadau o darddleoedd *cyfagos* fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, dylid cysylltu nodweddion lleol y safle (uchder, agwedd, pridd) â'r hinsawdd leol yn dda o hyd.

Ceir rhagor o gyngor defnyddiol ynghylch dewis coed i'w plannu ar wefan Forest Research.<sup>4</sup>

Dylai pawb o'r rheiny sy'n bwriadu plannu coed fod yn llwyr ymwybodol o nodweddion eu safle a'u gofynion, a defnyddio hadau o'r ffynonellau mwyaf addas. Mae Forest Research yn darparu canllawiau ar ddewis rhywogaethau a sut i ddisgrifio eich safle plannu ac mae hefyd yn cynnig cyngor ar blannu ar gyfer gwynwch yn erbyn newid yn yr hinsawdd.<sup>5</sup>

### Adnoddau defnyddiol:

1. FC Forest Reproductive Material: Regulations controlling seed cuttings and planting stock for forestry in Great Britain (2019) ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/forest-reproductive-material-regulations-controlling-seed-cuttings-and-planting-stock-for-forestry-in-great-britain-2nd-edition/>
2. Canllawiau ymarfer Forest Research: Management of Semi-natural woodlands. Ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/research/?search=The+management+of+semi-natural&page-type=publications&page-type=research-topics>
3. Safonau Sicrwydd Coetir y DU. Ar-lein yn: <http://ukwas.org.uk/standard/2-management-planning/#section-8>
4. Forest Research: Tree Species and Provenance. Ar-lein yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/tree-species-and-provenance/>
5. Ecological Site Classification (2020) Forest Research. Ar gael yn: <https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/ecological-site-classification-decision-support-system-esc-dss/>



## GYMRYD RHAN

I gael gwybod mwy:

## GET INVOLVED

To find out more:

[DEWISGWYLLT.CO.UK](http://DEWISGWYLLT.CO.UK)

   [dewisgwylt](https://twitter.com/dewisgwylt)

Llais y Goedwig, Unit 1, Dyfi Eco Park, Machynlleth, Powys, SY20 8AX

